

Mae samplau dŵr wedi eu cymryd uwchben ac o dan gefnffordd yr A470 gan ein bod yn credu fod dŵr ffo yn niweidiol iawn i ansawdd dŵr yr Eden. Rydym yn gobeithio gallu gweithio gyda thirfeddianwyr i greu strwythurau bychain i allu rhyng-gipio'r dŵr ffo a'i drin yn naturiol cyn iddo lifo mewn i system afonol yr Eden. Mae'n bosib y bydd taliadau blynyddoedd ar gael ar gyfer y gwaith hwn.

Manylion Cyswllt


Os hoffech drafod cyfleoedd neu os hoffech unrhyw wybodaeth bellach am y prosiect yna cysylltwch â:

Elain Gwilym

Swyddog Prosiect Afon Eden

Ffon: 01766 772251 / 07920590503

E-bost elain.gwilym@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk



P

erlau mewn Perygl LIFE+GB – Afon Eden, Cymru

Adfer cynefin mewn-afonol

Mae gwaith peirianyddol y gorffennol wedi amharu ar brosesau llif a gwaddodi naturiol yr afon, golygai hyn fod cynefinoedd pysgod a misglod bellach wedi diraddio i raddau sy'n creu problemau i bysgod a misglod yr Eden.

Yr haf hwn mae PMP wedi bod yn cyflwyno graean glan i'r afon ar gyfer annog cynefin addas i frithyll silio ynddynt. Mae meini wedi cael eu rhoi yn ôl i mewn i'r afon i greu amrywiaeth mewn patrymau llif a fydd yn annog cynefinoedd graen addas i fisglod a physgod ddatblygu'n naturiol.



Rydym eisiau diolch i'r holl dirfeddianwyr am eu cydweithrediad gyda'r gwaith.

Perlau yn y dosbarth – Y Rhyddhau

Ar ddiwrnod heulog ym mis Mehefin aethpwyd a disgyblion blwyddyn 3 a 4 i lannau'r Eden ar gyfer profi rhan dau 'Perlau yn y dosbarth'. Roedd hyn mewn partneriaeth â thîm warden a mynediad Parc Cenedlaethol Eryri a chafwyd diwrnod i'r brenin. Arolygwyd am bysgod ac infertebratau afonol, ceisio dal masarn a dysgu am arferion y dyfrgi.



Os ydych yn gwybod am ysgol / grŵp a fyddai'n elwa o sesiwn AM DDIM yna a fydddech cystal â'u cyfeirio at y swyddog prosiect!

Adfer Cynefin

Credir fod safle hen floc coedwig Brynteg yn cael effaith negyddol iawn ar yr Eden.

Mae gwaith peirianyddol o greu 11 pwll gwaddodi wedi dechrau yma. Mae'r pyllau wedi eu dylunio'n bwrpasol ar gyfer arafu llif dŵr i lawr hyd at 24 awr. Mae'r pyllau wedi cael eu lleoli yn strategol ar gyfer hidlo'r holl ddŵr sy'n llifo drwy'r safle 88 hectar.



G H James ar safle
@Pearlsinperil

Gweithio mewn partneriaeth

Mae Perlau mewn Perygl eisiau gweithio gyda thirfeddianwyr yr Eden. Os ydych yn meddwl y gallem eich helpu mewn unrhyw fodd yna cysylltwch â'r swyddog prosiect.

- Ffensio glannau afon
- Rheolaeth coed ar lannau
- Erydiad afon / ffosydd
- Croesfannau anifeiliaid fferm
 - Ffensio ffosydd
 - Cau ffosydd